# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 26/01/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Mesurau Rheoli Tybaco

**C11 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch mesurau rheoli tybaco? OAQ(3)2568(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid wyf wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ar fesurau i reoli tybaco hyd yma. Mae lleihau smygu yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthi'n sefydlu grŵp o randdeiliaid i ddatblygu strategaeth tybaco i Gymru, a fydd yn datblygu cynigion ar y mater pwysig hwn.

### Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus

**C12 Andrew R.T. Davies:** Pryd fydd y Prif Weinidog yn cwrdd nesaf â chyd-Weinidogion o'r Cabinet i drafod gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)2555(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gwella gwasanaethau cyhoeddus yn ganolog i'n hagenda yng nghytundeb 'Cymru'n Un', ac yr wyf yn bwriadu cynnal trafodaethau cyson â chyd-Weinidogion yn y Cabinet ynghylch gwella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

### Llywodraeth Cynulliad Cymru a Senedd y DU

**C13 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bydd yn gwella'r berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Senedd y DU? OAQ(3)2554(FM)

**Y Prif Weinidog:** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithio'n adeiladol ac yn effeithiol gyda Gweinidogion y DU a Senedd y DU, yn benodol i sicrhau bod Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a Mesurau sy'n rhoi pwerau ychwanegol i'r Cynulliad yn cael taith ddidrafferth drwy'r Senedd.

### Addasu Stoc Tai

**C14 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau i addasu'r stoc tai er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni? OAQ(3)2569(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Arbed, sef rhaglen buddsoddi strategol mewn perfformiad ynni, yn fenter ar y cyd sy'n cwmpasu tai, adfywio ac effeithlonrwydd ynni. Mae'n buddsoddi ym mherfformiad ynni mewn cartrefi a bydd, yn ei dro, yn creu swyddi gwyrdd ac yn ysgogi arloesedd. Bydd y cam cyntaf yn golygu buddsoddi dros £30 miliwn o gyllid buddsoddi cyfalaf strategol mewn prosiectau ar draws ardaloedd adfywio strategol Cymru.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)2561(FM), yn ôl.*
*Question 15, OAQ(3)2561(FM), was withdrawn.*